Department for Transport

Yr Adran Drafnidiaeth

# Ymgynghoriad Rheilffyrdd Cymunedol

## Symud Prydain Ymlaen



Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhoi ystyriaeth weithredol i anghenion pobl ddall a rhannol ddall wrth gyrchu'r ddogfen hon. Bydd y testun ar gael yn llawn ar wefan yr Adran. Gall y testun gael ei lawrlwytho'n rhydd a'i gyfieithu gan unigolion neu sefydliadau i'w drosi'n fformatau hygyrch eraill. Os oes gennych anghenion eraill yn hyn o beth, cysylltwch â'r Adran.

Yr Adran Drafnidiaeth
Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain SW1P 4DR
Ffoniwch 0300 330 3000
Gwefan www.gov.uk/dft
Ymholiadau cyffredinol: https://forms.dft.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol yn gorwedd gyda'r Goron.

Fe allwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos neu ddeunydd trydydd parti) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb gweithredol | 6 |
| Sut i ymateb | 7 |
| Rhyddid Gwybodaeth | **Error! Bookmark not defined.** |
| 1. Cyd-destun | 8 |
| Cyflwyniad i reilffyrdd cymunedol | 8 |
| Yr achos dros ymgynghori | 8 |
| Strategaeth Ddatblygu Rheilffordd Gymunedol 2007 | 9 |
| Rhaglen freinio rheilffordd y Llywodraeth | 9 |
| Dynodiad | 10 |
| Cymorth ehangach | 10 |
| 2. Amcanion y Llywodraeth | 11 |
| Amcanion y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant rheilffordd yw darparu: | 11 |
| 3. Themâu'r ymgynghoriad | 12 |
| a. Thema: Cysylltu pobl â lleoedd a chyfleoedd | 13 |
| b Thema: Cefnogi cymunedau, amrywiaeth a chynhwysiant | 15 |
| c Thema: Cefnogi economïau lleol | 17 |
| d Thema: Chwarae rôl yn y diwydiant rheilffordd | 19 |
| Beth fydd yn digwydd nesaf? | 21 |
| Atodiad B: Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad | 22 |
| Atodiad C: Egwyddorion yr ymgynghoriad | 24 |
| Atodiad D: Rhestr o'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â nhw | 25 |

# Rhagair

Mae'r rheilffordd yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi pobl i fyw eu bywydau, ac wrth gefnogi economïau lleol a rhanbarthol. Ond hefyd maen nhw'n effeithio ar lwyddiant cymunedau'n gyffredinol. Gwelodd ehangiad mawr y rheilffyrdd yn ystod yr oes Fictoraidd filoedd o filltiroedd o draciau'n cael eu gosod gan ddechrau cyfnod o gyfleoedd digynsail ar gyfer cymunedau oedd yn ynysig o'r blaen.



Rydyn ni mewn adfywiad rheilffyrdd – mae niferoedd teithwyr yn tyfu ac mae llinellau a gorsafoedd newydd yn cael eu hagor am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth. Ar draws y rhwydwaith, bu rhai o'r llwyddiannau mwyaf ar linellau gwledig a changen, a ystyriwyd yn ymylol i'r rhwydwaith prif linell o'r blaen. Mae'r llwyddiant hwn, nad yw'n aml yn cael digon o amlygrwydd, wedi ei ategu gan waith caled ac ymroddiad sefydliadau a arweinir gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys partneriaethau rheilffyrdd cymunedol, mabwysiadwyr gorsafoedd a grwpiau defnyddwyr rheilffordd.

Mae'r partneriaethau a'r grwpiau hyn wedi helpu trawsnewid y llinellau hyn a bywydau pobl leol ac ymwelwyr. Trwy weithio gyda'r gymuned, cyrff lleol, ysgolion, gwirfoddolwyr a'r diwydiant rheilffordd, maent wedi datblygu dulliau arloesol o wella gorsafoedd, codi proffil y rheilffordd, a chael mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth rheilffyrdd cymunedol ac yn cefnogi partneriaethau trwy gyllid grant a chyllid a ddarperir gan weithredwyr trên fel rhan o'u masnachfreintiau. Ers 2001, mae Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol (ACoRP) wedi darparu rôl allweddol wrth gefnogi partneriaethau a grwpiau unigol i lunio a chyflawni eu huchelgais.

Heddiw, mae bron i 60 o bartneriaethau rheilffyrdd cymunedol yn cwmpasu holl gorneli'r wlad – o'r llinell Forwrol yn y de-orllewin i linell yr Esgob yn y gogledd-ddwyrain. Mae miloedd o wirfoddolwyr ar draws cannoedd o gymunedau'n rhoi eu hamser a'u hegni i gynorthwyo'r rheilffordd a'u cymunedau.

Bu'n ddegawd ers i'r llywodraeth adolygu ei strategaeth rheilffyrdd cymunedol. Mae'r oes wedi newid. Mae llawer mwy o bobl yn defnyddio ein rheilffyrdd ac mae masnachfreintiau rheilffyrdd newydd bellach yn gofyn am safonau mwy pendant ar gyfer teithwyr. Wrth i ni

gydweithio i greu Prydain gryfach a thecach gyda sector trafnidiaeth ardderchog wrth ei galon, disgwyliwn i reilffyrdd cymunedol barhau i chwarae rhan allweddol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar bedair thema sy'n rhan annatod o sut mae rheilffyrdd cymunedol o fudd i bobl, yn gwella cymunedau, ac yn cefnogi'r rheilffordd. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltu pobl a lleoedd; integreiddio cymunedau i greu cymdeithas decach ac annog amrywiaeth a chynhwysiant; cefnogi economïau lleol a rhanbarthol a rhannu cyfleoedd; ac awgrymu dulliau arloesol o wella'r ffordd mae'r rheilffyrdd yn gweithio, gan gynnwys defnydd cynhyrchiol o dir a gorsafoedd rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu heb eu defnyddio o gwbl, a gweithio'n agosach gyda rheilffyrdd treftadaeth.

Dw i wedi ymrwymo i weld rheilffyrdd cymunedol yn datblygu a deall beth ddylai ei rôl yn y diwydiant rheilffordd yn y dyfodol fod, a dwi am glywed pob barn os ydych chi'n ymwneud â'n rheilffyrdd lleol neu beidio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i chi helpu llunio dyfodol ein rheilffyrdd cymunedol fel eu bod yn parhau i ddatblygu a ffynnu am y degawd nesaf a thu hwnt.



Paul Maynard AS
Gweinidog y Rheilffyrdd

# Crynodeb gweithredol

1 Mae'r Llywodraeth o'r farn bod rheilffyrdd cymunedol mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y rheilffordd yn adlewyrchu'r cymunedau a'r cwsmeriaid mae'n eu gwasanaethu. Adolygwyd y polisi rheilffyrdd cymunedol ddiwethaf yn 2007 ac yn y ddegawd ers hynny bu newid sylweddol, gyda rheilffyrdd cymunedol yn parhau i ddatblygu mewn rhwydwaith rheilffordd sydd yn esblygu ac yn tyfu.

2 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw darparu cyfle i'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn rheilffyrdd cymunedol yng Nghymru a Lloegr i lywio polisi'r dyfodol.

3 Mae rheilffyrdd cymunedol yn rheilffyrdd lleol a gefnogir gan sefydliad partneriaeth leol sy'n gweithio gyda phobl leol, awdurdodau cyhoeddus, gwirfoddolwyr a'r diwydiant rheilffordd ac sy'n ymgysylltu â nhw i ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau a gorsafoedd rheilffordd.

4 Er bod llinellau a gwasanaethau rheilffyrdd cymunedol yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, mae rhai hefyd yn gweithredu mewn ardaloedd lled-wledig, maestrefol ac ardaloedd dinas fewnol. Mae pob llinell reilffordd gymunedol yn rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol.

5 Mae rheilffyrdd cymunedol wedi bod yn llwyddiant profedig dros yr 20 mlynedd diwethaf, gyda llawer o brosiectau wedi'u hysbrydoli gan y gymuned yn dod â chymunedau a'u rheilffyrdd lleol yn nes at ei gilydd.

6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio adeiladu ar fentrau rheilffyrdd cymunedol presennol yng nghyd-destun amcanion y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant rheilffordd. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i deithwyr, gan ddarparu gwerth ar gyfer trethdalwyr, a chefnogi cyfleoedd economaidd i bawb.

7 Rydym wedi ymgysylltu'n eang ar draws y sector rheilffyrdd cymunedol i nodi pedair thema allweddol:

- Cysylltu pobl â lleoedd a chyfleoedd
- Cefnogi cymunedau, amrywiaeth a chynhwysiant
- Cefnogi economïau lleol
- Chwarae rôl yn y diwydiant rheilffyrdd

8 Rydym o'r farn bod y themâu hyn yn cyd-fynd yn dda â dyheadau'r sector rheilffyrdd cymunedol ac y bydd yn helpu arwain ein syniadau.

9 Rydym am glywed gan randdeiliaid rheilffyrdd cymunedol presennol, awdurdodau lleol, grwpiau busnes, mentrau cymdeithasol, Partneriaethau Menter Lleol, a grwpiau cymunedol eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu Cymru a Lloegr gyfan, gan gynnwys cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau rheilffyrdd cymunedol megis llinellau trefol a chymudo, ond lle gallai rheilffyrdd cymunedol ddatblygu yn y dyfodol. Byddem hefyd yn croesawu ymatebion gan y cyhoedd, yn arbennig y rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau rheilffyrdd lleol.

# Sut i ymateb

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 6 Tachwedd 2017 a bydd yn rhedeg tan 28 Ionawr 2018. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau. Os hoffech gael rhagor o gopïau o'r ddogfen ymgynghori hon, fe'i canfyddir yn https://www.gov.uk/dft#consultations neu gallwch gysylltu â [manylion cyswllt] os oes arnoch angen fformatau eraill (Braille, CD sain, ac ati.).

Anfonwch ymatebion i'r ymgynghoriad i:

Kulvinder Bassi

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Wrth ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad mwy, gwnewch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle mae'n gymwys, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Mae rhestr o'r rhai hynny yr anfonwyd y ddogfen ymgynghori hon atynt wedi'i chysylltu yn Atodiad D.

# Rhyddid Gwybodaeth

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn destun cyhoeddi neu ddatgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych am i wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan yr FOIA, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hwy, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth Ddeddfwriaethol, ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

Oherwydd hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn ni'n derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ni'n ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn ni roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan yr holl amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo ei hunan, yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) ac o dan y mwyafrif o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd parti.

# 1. Cyd-destun

## Cyflwyniad i reilffyrdd cymunedol

1.1 Mae rheilffyrdd cymunedol yn ymwneud â chysylltu cymunedau a'u rheilffyrdd trwy bartneriaethau, grwpiau, sefydliadau, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr seiliedig yn y gymuned.

1.2 Yng Nghymru a Lloegr, mae rheilffyrdd cymunedol yn rheilffordd a gefnogir gan sefydliad partneriaeth lleol â'r nod o ymgysylltu â phobl leol wrth ddatblygu a hyrwyddo'r llwybrau, gwasanaethau a gorsafoedd.

1.3 Ar y dechrau, datblygodd y cysyniad rheilffyrdd cymunedol o sefydliad llawr gwlad, cyn cael ei fabwysiadu fel strategaeth y Llywodraeth a chael ei gefnogi'n ehangach gan y diwydiant rheilffyrdd. Mae llinellau a gwasanaethau rheilffyrdd cymunedol i gyd yn rhan o'r rhwydwaith rheilffordd masnachol. Mae cwmnïau trên yn gweithredu'r gwasanaethau ac mae Network Rail yn berchen ar ac yn cynnal y seilwaith, y trac, signalau a mwyafrif y gorsafoedd.

1.4 Mae llinellau rheilffyrdd cymunedol yn cludo dros 40 miliwn o gwsmeriaid bob blwyddyn. Er bod llinellau a gwasanaethau rheilffyrdd cymunedol ar hyn o bryd yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, mae rhai hefyd yn gweithredu mewn ardaloedd lled-wledig, maestrefol ac ardaloedd dinas fewnol.

1.5 Mae llinellau a gwasanaethau rheilffyrdd cymunedol yn cael eu cefnogi gan Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol ("CRP"). Mae CRP yn bartneriaeth rhwng y cwmni gweithredu trenau ("TOC") neu gwmnïau sy'n gwasanaethu'r llinell, Network Rail, cynghorau lleol a sefydliadau cymunedol eraill, megis grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd a grwpiau gwirfoddol. Mae oddeutu 60 CRP ym Mhrydain Fawr.

1.6 Yn 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth Ddatblygu Rheilffyrdd Cymunedol, gan gydnabod yn ffurfiol rheilffyrdd cymunedol a rôl CRPau wrth gefnogi nodau strategol y rheilffordd genedlaethol.

## Yr achos dros ymgynghori

1.7 Adolygodd y Llywodraeth ei bolisi rheilffyrdd cymunedol ddiwethaf yn 2007. Yn y degawd ers hynny bu cryn newid, gyda rheilffyrdd cymunedol yn parhau i ddatblygu mewn rhwydwaith rheilffordd sydd yn esblygu ac yn tyfu. Diben yr ymgynghoriad hwn yw darparu cyfle i'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn rheilffyrdd cymunedol yng Nghymru a Lloegr I lywio polisi'r dyfodol.

1.8 Fel rhan o rwydwaith trafnidiaeth llwyddiannus, mae'r Llywodraeth yn credu bod rheilffyrdd cymunedol mewn sefyllfa dda i gydnabod y newidiadau sylweddol ar lefelau strwythurol, gweithredol a theithwyr sydd wedi digwydd dros y ddegawd ddiwethaf ac i fod yn bartner pwysig wrth sicrhau bod y rheilffordd yn

adlewyrchu'r cymunedau a'r cwsmeriaid mae'n eu gwasanaethu. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ac ymatebion trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

## Strategaeth Datblygu Rheilffyrdd Cymunedol 2007

1.9 Mae'r Strategaeth Datblygu Rheilffyrdd Cymunedol ("CRDS") yn dyddio o 2007 ac yn cyflwyno'r nodau canlynol:

- Teithwyr, defnydd nwyddau a refeniw net cynyddol;
- Costau rheoli'n lleihau;
- Mwy o gyfranogiad gan y gymuned leol; a
- Galluogi rheilffyrdd lleol i chwarae rhan fwy o ran mewn adfywio economaidd a chymdeithasol.

1.10 Mae Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol ("ACoRP") yn sefydliad annibynnol a ddaeth â CRPau a grwpiau ynghyd yn gynnar yn y 2000au ac sydd nawr yn cefnogi datblygiad pellach yn y sector. Mae ACoRP yn derbyn cyllid gan y Llywodraeth i gefnogi'r broses o gyflawni'r CRDS, ac i gefnogi'r ymgynghoriad hwn, mae ACoRP wedi cynhyrchu llyfryn cysylltiedig sy'n darparu asesiad o sut mae rheilffyrdd cymunedol wedi cyflawni strategaeth 2007. (mewnosod dolen/cyfeirnod).

## Rhaglen masnachfraint rheilffyrdd y Llywodraeth

1.11 Trwy ei rhaglen masnachfraint rheilffyrdd, mae'r Llywodraeth yn ceisio darparu canlyniadau gwell i deithwyr, gwerth gwell i'r trethdalwr, a gyrru budd economaidd ar gyfer y wlad. Mae'r broses wedi datblygu'n barhaus ac mae bellach yn cynnwys mwy o ymgysylltu â chynigwyr, rhanddeiliaid a theithwyr nag erioed o'r blaen. Mae masnachfreintiau diweddar wedi gweld ymrwymiadau a rhwymedigaethau penodol i gefnogi'r sector rheilffyrdd cymunedol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Darparu cyllid i CRPau gyda'r rhan fwyaf o'r masnachfreintiau newydd yn darparu cyllid ar gyfer CRPau trwy setliadau aml-flynedd. Mae hyn yn aml yn galluogi cyflogi swyddogion rheilffyrdd cymunedol ac yn cynorthwyo cynllunio tymor hir;
- Cynlluniau mabwysiadu gorsafoedd sy'n arwain at gynyddu cyfranogiad cymunedol. Mae enghreifftiau'n amrywio o fabwysiadwyr gorsafoedd unigol yn adrodd diffygion i grwpiau mwy sy'n helpu trawsnewid amgylcheddau gorsafoedd ac yn cysylltu'r rheilffordd â'i chymuned trwy fentrau allgymorth;
- Cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a hyfforddiant ymhlith CRPau trwy ddarparu mynediad i gymorth arbenigol gan ACoRP a'r diwydiant, er enghraifft yn ymwneud â chynllunio, ymgysylltu â'r gymuned, amserlennu, prisiau a marchnata;
- Mwy o arweinyddiaeth, ffocws rheoli ac atebolrwydd o fewn gweithredwyr trên;
- Anogaeth i gefnogi datblygu gofod gorsafoedd segur er budd y gymuned.

1.12 Mae'n ofynnol hefyd i ddeiliaid masnachfraint newydd nodi sut byddant yn gweithio gydag ACoRP i gyflawni canlyniadau strategol. Mae ACoRP yn ymroddedig i gefnogi grwpiau a phartneriaethau cymunedol sydd yn cysylltu eu cymuned â'u rheilffordd ac yn darparu budd cymdeithasol. Fel corff

cynrychioliadol, mae ACoRP yn darparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i'r sector rheilffyrdd cymunedol, yn arbennig trwy wasanaethau a digwyddiadau aelodaeth. Mae'r sefydliad yn eiriolwr ar gyfer rheilffyrdd cymunedol, gan ddarparu cyswllt rhwng aelodau a llywodraethau cenedlaethol a datganoledig, partneriaid a'r diwydiant.

1.13 Mae'r Llywodraeth yn darparu cyllid i gefnogi ACoRP yn ei waith, ac mae cyllid ychwanegol a ddyfarnwyd yn [blwyddyn] wedi caniatáu i'r sefydliad ddyblu ei faint yn ddiweddar, gan ei alluogi i ddatblygu ei gapasiti a'i allu arbenigol ymhellach.

## Dynodiad

1.14 Er mwyn cefnogi'r broses o gyflenwi'r CRDS, cyflwynwyd dull newydd o reoli rheilffyrdd lleol a gwledig yn Lloegr yn 2008 a ganiataodd i rai llinellau a gwasanaethau gael eu dynodi'n ffurfiol fel rheilffyrdd cymunedol. Roedd yn darparu dull gwahanol i'r ffordd y cafodd y llinellau hyn eu rheoli, eu marchnata a'u cefnogi. Hyd yn hyn, mae'r Adran wedi dynodi 41 o linellau fel 'Rheilffyrdd Cymunedol'. Mae rhestr lawn o ddynodiadau ar gael ar-lein yn https://www.gov.uk/government/collections/community-rail-lines.

1.15 Mae dynodiad yn nodi llinellau rheilffyrdd cymunedol yn wahanol i weddill y rhwydwaith cenedlaethol ac mae'n caniatáu i rai gofynion cenedlaethol, gan gynnwys cymhwyso'r Safonau Technegol ar gyfer Gallu i Ryngweithredu, gael eu llacio. Fe'i cynlluniwyd hefyd i annog meddwl mwy radicalaidd ar weithredu tocynnau lleol, protocolau gweithredu a gofynion eraill a osodwyd yn genedlaethol a oedd yn cynyddu costau heb ychwanegu gwerth yn lleol.

1.16 Yn 2008, sefydlodd yr Adran hefyd y Gronfa Ddatblygu Rheilffyrdd Cymunedol Dynodedig ("DCRDF"). Mae'r gronfa grant flynyddol hon, a ddarperir gan DfT ac a weinyddir gan ACoRP, yn gronfa y gall CRPau â llinellau dynodedig wneud cais amdani. Ar hyn o bryd, mae'r DCRDF wedi'i hanelu at gefnogi ymgyrchoedd marchnata, gwelliannau ar raddfa fach i orsafoedd ac ymgysylltu â'r gymuned (e.e. gwaith celf, cynlluniau diogelwch ar gyfer plant, ac ati). Rhwng 2008 a 2015 mae wedi cefnogi 167 o gynlluniau rheilffyrdd cymunedol sy'n cynhyrchu dros £1m mewn cyllid trydydd parti i gyflenwi prosiectau sy'n werth dros £1.5 miliwn.

## Cymorth ehangach

1.17 Mae rheilffyrdd cymunedol hefyd wedi elwa o gystadlaethau cyllido penodol a redir gan yr Adran. Er enghraifft, yn 2016 cynhaliodd yr Adran Gystadleuaeth Arloesi Twristiaeth Treftadaeth a Rheilffyrdd Cymunedol er mwyn annog lliaws o brosiectau arloesol i hybu twristiaeth sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd. Fel un o'r cynigwyr llwyddiannus, mae ACoRP wedi datblygu gwefan genedlaethol newydd – Scenic Rail Britain[1] sy'n cyflwyno ymwelwyr o Brydain a thramor i'r goreuon o linellau rheilffyrdd cymunedol Prydain.

[1] https://www.scenicrailbritain.com/

# 2. Amcanion y Llywodraeth

## Amcanion y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd yw darparu:

2.1 Gwasanaethau o safon fyd-eang i deithwyr;

2.2 Gwerth i drethdalwyr; a

2.3 Chyfleoedd economaidd i bawb.

2.4 Mewn cyd-destun rheilffyrdd cymunedol, mae hyn yn golygu deall y rheilffordd fel gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymateb i anghenion y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Bydd galluogi'r gymuned i gael rhan yn nyfodol ei rheilffordd yn helpu sicrhau bod y rheilffordd yn berthnasol i'r bobl sy'n ei defnyddio ac yn adlewyrchu eu hanghenion a'u dyheadau. Bydd hyn yn cefnogi ein blaenoriaethau ehangach o ganolbwyntio ar fod o fudd i gwsmeriaid a chefnogi'r economi.

2.5 Gan weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd a chydag ACoRP a CRPau, mae'r Llywodraeth yn gosod y fframwaith polisi rheilffyrdd cymunedol i sicrhau bod rheilffyrdd cymunedol yn cyd-fynd ag ac yn cefnogi cyflawni amcanion y llywodraeth ar gyfer rheilffyrdd. Mae ymgynghoriadau'n offeryn gwerthfawr i geisio mewnbwn gan y cyhoedd, y mae'r rheilffordd yn bodoli i'w gwasanaethu.

# 3. Themâu'r ymgynghoriad

3.1 Wrth ddatblygu'r ddogfen ymgynghori hon, cymerwyd safbwyntiau gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol, a grwpiau rheilffyrdd cymunedol. Rydym hefyd wedi ceisio mewnbwn gan dros 100 o swyddogion CRP ac ymddiriedolwyr, mentrau rheilffyrdd cymunedol, grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd a gwirfoddolwyr, trwy'r Seminar Genedlaethol Rheilffyrdd Cymunedol yn gynnar yn 2017.

3.2 Nod y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol yw darparu arweinyddiaeth strategol i'r sector rheilffyrdd cymunedol ac aelodaeth sy'n cynnwys DfT, gweinyddiaethau datganoledig (Llywodraeth Cymru, Transport for Scotland a Rail North), ACoRP, Grŵp Cyflenwi'r Rheilffyrdd, Network Rail a chynrychiolwyr TOC.

3.3 Mae hyn wedi arwain at nodi pedair thema sy'n cwmpasu 12 cwestiwn. Mae'r themâu hyn yn gosod y cyd-destun mae'r Llywodraeth yn disgwyl i reilffyrdd cymunedol ddatblygu ynddo. Credwn fod y themâu hyn yn cyd-fynd yn dda â dyheadau'r sector rheilffyrdd cymunedol a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu llywio strategaeth y dyfodol. Y pedair thema yw:

- Connecting people to places and opportunities
- Supporting communities, diversity and inclusion
- Supporting local economies
- Playing a role within the rail industry

3.4 Er mwyn arwain yr ymatebion, rydym wedi tybio y bydd y fframwaith rheilffyrdd presennol yn parhau'n fras fel y mae ac nid ydym yn disgwyl gwneud unrhyw newidiadau fydd angen deddfwriaeth.

3.5 Mae'r adrannau dilynol yn cyflwyno pob un o themâu'r ymgynghoriad, yn darparu crynodeb o pam mae'n berthnasol, ac yn cyflwyno nifer o gwestiynau lle ceisir eich barn.

## a. Thema: Cysylltu pobl â lleoedd a chyfleoedd

3.6 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar sut gall rheilffyrdd cymunedol wella teithiau. Mae rhwydwaith trafnidiaeth o ansawdd da yn rhan hanfodol o alluogi pobl i fyw eu bywydau.

3.7 Er bod twf parhaus o ran nifer o deithwyr wedi digwydd ar draws y diwydiant rheilffordd dros y ddau ddegawd diwethaf, mae nifer o linellau rheilffyrdd cymunedol wedi gweld nid twf cyfatebol yn unig, ond mewn rhai achosion twf ychwanegol sylweddol hefyd. Er enghraifft, mae Llinell Severn Beach ym Mryste wedi gweld cynnydd o 350% dros y degawd diwethaf. Mae'r twf hwn yn dod â heriau o ran y gallu i'r rhwydwaith ddarparu cerbydau a chapasiti amserlen i ddiwallu'r galw, a hefyd i gyfleusterau'r orsaf gadw'n gyfredol â newidiadau, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd ychwanegol i werthu tocynnau.

3.8 Mae cwmpas i reilffyrdd cymunedol ymgysylltu â Chyrff Trafnidiaeth Is-genedlaethol (STB) sy'n cwmpasu rhanbarthau. Gall STB ofyn am swyddogaethau a chyfrifoldebau pwrpasol sy'n diwallu anghenion ardaloedd lleol sy'n rhoi mwy o lais i bobl leol o ran cynllunio cludiant strategol.

3.9 Mae'r thema hon yn ceisio ymatebion ar sut y gall rheilffyrdd cymunedol integreiddio taith pobl o'r dechrau i'r diwedd yn well. Rydym am hyrwyddo rheilffordd fel rhan allweddol o deithio cynaliadwy, iach a'i gwneud yn haws i bobl ddewis rheilffordd dros ddulliau cludiant llai amgylcheddol gynaliadwy. Yn olaf, rydym am glywed gennych sut y gall rheilffyrdd cymunedol helpu diwallu anghenion teithwyr a chymunedau'n well yn y dyfodol.

**Cwestiwn 1a: Pa rôl all rheilffyrdd cymunedol ei chwarae o ran gwella teithiau o'r dechrau i'r diwedd?**

**Cwestiwn 1b: Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu i:**

- Wneud Teithiau'n fwy cynaliadwy?
- Annog teithio iachach?
- Gwella effaith amgylcheddol teithio?

3.10 Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag integreiddio rheilffyrdd cymunedol fel rhan o daith y cwsmer o'r dechrau i'r diwedd. Gallai hyn gynnwys mynd i'r orsaf ac oddi yno, gan gynnwys amrywiaeth o ddulliau cludiant megis cerdded, beicio, bysiau lleol, cludiant cymunedol, tacsis, yn ogystal â char.

3.11 Bydd gennym ddiddordeb arbennig i glywed syniadau ynghylch sut y gellid cyflenwi'r thema hon, gan gynnwys sut y byddai partneriaid cyflenwi allweddol yn cael eu cynnwys, a rôl rheilffyrdd cymunedol wrth helpu darparu teithiau gwell.

3.12 Lle mae'n briodol, gofynnir i ymatebwyr roi enghreifftiau o arfer gorau lle mae mentrau dan arweiniad lleol yn darparu buddion i deithwyr, ac i ba raddau y gellid atgynhyrchu'r rhain ar raddfa fwy.

**Cwestiwn 2: Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu:**

a. Cymunedau i gael llais o ran dylanwadu ar ddarpariaeth rheilffordd?
b. Gwasanaethau cludiant ategol a datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd?

3.13 Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â datblygu ein rheilffyrdd i ddiwallu anghenion y cwsmeriaid a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu'n well.

3.14 Rydym yn awyddus i ddeall sut mae rheilffyrdd cymunedol yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu a sut maent yn cyfathrebu blaenoriaethau lleol i wneuthurwyr penderfyniadau o fewn y diwydiant rheilffyrdd cenedlaethol.

3.15 Gofynnir i ymatebwyr ddarparu awgrymiadau ar ddulliau o gryfhau'r ffyrdd mae arbenigwyr rheilffyrdd cymunedol yn darparu cyngor. Bydd gennym ddiddordeb mewn ymatebion sy'n nodi sut gall rheilffyrdd cymunedol wella eu henw da a gwelededd ar draws rhanddeiliaid a phartneriaid lleol.

**Cwestiwn 3: Ble ddylai'r llywodraeth annog rheilffyrdd cymunedol i ddatblygu ar rannau o'r rhwydwaith sydd heb CRPau gweithredol neu gyfranogiad cymunedol arall ar hyn o bryd?**

3.16 Mae astudiaethau, gan gynnwys 'Gwerth Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol'[2] 2015 wedi canfod bod rheilffyrdd cymunedol yn talu amdanynt eu hunain trwy ychwanegu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gefnogi twf ychwanegol y flwyddyn ar lwybrau rheilffyrdd cymunedol, a chyflenwi canlyniadau cost isel/budd uchel megis gwella canfyddiadau o ddiogelwch a diogeledd.

3.17 Ar hyn o bryd mae 57 o CRPau, pob un yn wahanol ac â'u hunaniaeth a'u huchelgais eu hunain. Mae rheilffyrdd cymunedol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth annog ymgysylltiad cymunedol yng Ngogledd Lloegr, lle mae nifer fawr o CRPau wedi'u sefydlu. Mae cryfder llawer o bartneriaethau'n deillio o'u cyfranogiad ymroddedig ar lefel llawr gwlad.

3.18 Hyd yn hyn, mae rôl y Llywodraeth o ran cefnogi'r broses o greu CRPau mewn ardaloedd newydd wedi canolbwyntio ar fynnu bod gweithredwyr trenau masnachfraint yn cefnogi partneriaethau newydd ac yn darparu cyllid i ACoRP sydd ag amcan craidd o gefnogi partneriaethau newydd lle maent yn dod i'r amlwg. Nid yw'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn hyrwyddo cyflwyno Rheilffyrdd Cymunedol i linellau a gwasanaethau heb bartneriaeth, neu'n annog sefydlu Rheilffyrdd Cymunedol mewn cymunedau trefol.

3.19 Byddai gennym ddiddordeb mewn ymatebion sy'n canolbwyntio ar y manteision a'r anfanteision a gyflwynir os bydd y Llywodraeth yn mabwysiadu safbwynt polisi sy'n annog datblygu CRPau newydd ar draws y rhwydwaith cenedlaethol yn fwy agored a gweithredol a sut y gellid ariannu ehangu o'r fath.

[2] *https://acorp.uk.com/research-projects/research/value-of-community-rail-partnerships/*

## b. Thema: Cefnogi cymunedau, amrywiaeth a chynhwysiant

3.20 Mae'r thema hon yn cyd-fynd yn gryf ag un o flaenoriaethau allweddol yr Adran ar gyfer parhau i gynyddu hygyrchedd y rhwydwaith rheilffyrdd, gan gynnwys ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau, yn ogystal â nod y Llywodraeth o gyflawni cymunedau mwy integredig.

3.21 Cefnogir cymunedau llwyddiannus a chryf gan wasanaethau cyhoeddus sy'n creu'r amodau i bawb fyw a gweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny yn ein cymunedau sy'n dod o grwpiau lleiafrifol, sy'n byw gyda namau neu anableddau, neu sydd dan anfantais neu'n anodd eu cyrraedd ac wedi eu hynysu.

3.22 Mae'r thema hon yn ystyried cyfraniad ehangach rheilffyrdd cymunedol o ran helpu creu cymunedau tecach a mwy cyfartal. Credwn fod rôl allweddol i reilffyrdd cymunedol ymgysylltu a helpu rhoi arweinyddiaeth wrth gyflenwi'r thema hon.

3.23 Gallai hyn gynnwys rôl CRPau o ran gweithio y tu hwnt i'r diwydiant rheilffordd – yn arbennig gyda'r sector gwirfoddol. Mae manteision posibl o alinio'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd a ddarperir gan y rheilffyrdd ag uchelgais ac arloesedd mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol, ysgolion lleol, colegau, grwpiau a rhwydweithiau busnes, ac arweinwyr cymunedol. Bydd gennym ddiddordeb i glywed gan ymatebwyr o'r sector rheilffyrdd cymunedol a'r diwydiant rheilffyrdd a'r tu allan iddynt ynghylch sut y gellir hyrwyddo a chefnogi'r ymgysylltiad hwn.

3.24 Mae'r cwestiynau dilynol yn gofyn am ymatebion ynghylch rôl rheilffyrdd cymunedol wrth gefnogi'r agenda hwn, sy'n cynnwys hyrwyddo ffyrdd egnïol ac iach o fyw, gan annog teithiau i'r rhai hynny â gofynion symudedd ac anableddau, a sicrhau bod y rheilffyrdd yn hygyrch i gymaint o bobl â phosibl.

**Cwestiwn 4a: Beth yw rôl rheilffyrdd cymunedol o ran cefnogi**

- Cydlyniant cymunedol?
- Hyrwyddo amrywiaeth?
- Galluogi cynhwysiant cymdeithasol?

**4b: P'un yw'r dull gorau o gyflawni hyn?**

3.25 Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â deall cyfraniad ehangach rheilffyrdd cymunedol o ran cefnogi cydlyniant cymunedol trwy ddod â grwpiau gwahanol at ei gilydd, hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth, a helpu creu cymunedau tecach a mwy cyfartal.

3.26 Bydd gennym ddiddordeb mewn deall a oes unrhyw grwpiau penodol (e.e. pobl ifanc, yr henoed, pobl ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig) sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag cymryd rhan mewn mentrau rheilffyrdd cymunedol (e.e. mabwysiadu'r orsaf, celf gymunedol, trenau cerdd a digwyddiadau arbennig) a'r rhwystrau maent yn eu profi.

3.27 Lle mae'n briodol, gofynnir i ymatebwyr ddarparu enghreifftiau o arfer gorau lle mae mentrau dan arweiniad lleol yn darparu buddion i grwpiau dan anfantais a

grwpiau lleiafrifol neu sy'n arwain at fwy o gydlyniant cymunedol trwy ddod â grwpiau gwahanol at ei gilydd, ac i ba raddau y gellid eu hatgynhyrchu ar raddfa fwy neu mewn ardaloedd eraill. Bydd gennym ddiddordeb arbennig i glywed syniadau ynghylch sut y gellid cyflenwi'r thema hon, gan gynnwys partneriaid cyflawni allweddol, a rôl rheilffyrdd cymunedol wrth helpu cymunedau lleol.

### Cwestiwn 5: Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu sicrhau bod y rheilffordd mor hygyrch i gymaint o bobl â phosibl?

3.28 Mae'r rheilffordd yn darparu mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau iechyd, addysg a hamdden a dylai fod mor hygyrch i gymaint o bobl â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn hygyrch yn gorfforol i'r rhai hynny â phroblemau symudedd ac anableddau corfforol, ond hefyd mae'n ymwneud â darparu amgylchedd diogel a chefnogol i'r rhai hynny sydd ag anableddau dysgu a 'chudd' fel awtistiaeth, neu sglerosis ymledol. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi mynediad i grwpiau sy'n agored i niwed a phobl nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio'r rheilffordd a darparu mwy o gynhwysiant trwy fentrau allgymorth.

3.29 Rydym yn awyddus i ddeall sut y gall rheilffyrdd cymunedol gefnogi'r rheilffyrdd i ddod yn fwy hygyrch, gan gynnwys ar gyfer y rhai hynny ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu, a'r rhai hynny sy'n dod o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, y rhai hynny o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig).

3.30 Mae gennym ddiddordeb mewn deall a oes mentrau dan arweiniad lleol sy'n cefnogi unigolion ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl i fyw bywydau egnïol ac iach, ac i ba raddau y gellid atgynhyrchu'r rhain ar raddfa fwy neu mewn ardaloedd eraill.

3.31 Mae gennym ddiddordeb mewn deall sut y gall rheilffyrdd cymunedol hwyluso mentrau a arweinir yn lleol sy'n gwneud gorsafoedd a theithio ar y rheilffyrdd yn fwy hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac i ba raddau y gellid atgynhyrchu'r rhain ar raddfa fwy.

## c. Thema: Cefnogi economïau lleol

3.32 Mae'r thema hon yn cyd-fynd yn gryf â phob agwedd ar flaenoriaethau strategol allweddol yr Adran, yn arbennig hybu twf a chyfle economaidd.

3.33 Mae gan y rheilffordd genedlaethol rôl bwysig i'w chwarae o ran adeiladu economi cryfach a chytbwys fel rhan o strategaeth ddiwydiannol fodern sy'n lledaenu swyddi, ffyniant a chyfleoedd ledled y wlad, ac sy'n ymateb i flaenoriaethau twf lleol.

3.34 Mae nifer sylweddol o lwybrau rheilffyrdd cymunedol yn gweithredu mewn cymunedau gwledig ac arfordirol. Mae'r cymunedau hyn yn dod yn fwy amrywiol o safbwynt economaidd gyda thwristiaeth yn elfen gynyddol bwysig o economïau lleol, ond hefyd o ran darparu cysylltiadau cyflym a dibynadwy ag ardaloedd eraill.

3.35 Mae'r thema hon o'r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion ar y rôl y gallai rheilffyrdd cymunedol chwarae o ran cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan wneud y gorau o botensial economaidd ardaloedd lleol, a gwneud defnydd gwell a mwy cynhyrchiol o safbwyntiau cymdeithasol ac economaidd o dir a gorsafoedd rheilffordd sydd heb eu defnyddio'n ddigonol neu heb eu defnyddio o gwbl.

### Cwestiwn 6: Sut all rheilffyrdd cymunedol gefnogi economïau a rheilffyrdd lleol i dyfu trwy

- Gynyddu cyflogaeth?
- Cyfleoedd addysg a hyfforddiant?
- Cefnogi busnesau bach?
- Datblygu mentrau cymdeithasol?

3.36 Mae'r cwestiwn hwn yn delio â rôl rheilffyrdd cymunedol wrth hwyluso a chefnogi twf economaidd.

3.37 Credwn fod cyfle i reilffyrdd cymunedol gefnogi datblygiad economaidd ardaloedd lleol a'u rheilffyrdd, gan gynnwys trwy ddatblygu a chefnogi mentrau sy'n ymgysylltu â grwpiau difreintiedig, a thrwy fentrau cymdeithasol.

3.38 Credwn y gallai rheilffyrdd cymunedol gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd economaidd hefyd trwy fentrau megis ymgysylltu â Phartneriaethau Menter Lleol (LEPau), awdurdodau lleol a grwpiau busnes, yn ogystal â'r diwydiant rheilffyrdd.

3.39 Rydym am ddeall y raddfa/i ba raddau mae hyn eisoes yn digwydd, ac mae gennym ddiddordeb hefyd mewn deall cyfle a pharodrwydd ymatebwyr i ddatblygu a chefnogi cynlluniau yn y dyfodol sy'n hwyluso symudedd cymdeithasol a ffyniant economaidd.

### Cwestiwn 7: Pa rôl all rheilffyrdd cymunedol ei chwarae o ran gwneud y defnydd gorau o

- Adeiladau gorsaf?

- Tir rheilffordd?

3.40 Mae ystâd helaeth o dir ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd; mae rhai, ond nid pob un, yn eiddo i Network Rail a'i ragflaenwyr. Mae rhaglen barhaus i waredu asedau eiddo wrth iddynt ddod yn weddill i ofynion gweithredol.

3.41 Pan fydd tir ac eiddo yn parhau o dan berchnogaeth gyhoeddus, mae cyfle i ystyried gwneud y mwyaf o werth i gymunedau a helpu mynd i'r afael â nifer o amcanion ehangach y llywodraeth.

3.42 Trwy'r rhaglen masnachfreintiau rheilffyrdd, mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i TOCau ddatblygu a chyflenwi 'Cynllun Datblygu Cymdeithasol a Masnachol' a'i ddiben yw ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw nodi asedau gorsaf sydd heb eu defnyddio'n ddigonol a'r rhai nas defnyddir o gwbl ac i weithio gyda theithwyr a rhanddeiliaid lleol i adnewyddu'r rhain a threfnu eu bod ar gael i'r gymuned a busnesau bach eu defnyddio.

3.43 Rydym yn awyddus i ddeall i ba raddau y gall rheilffyrdd cymunedol weithio gyda TOCau, Network Rail a pherchenogion tir ac eiddo lleol i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adeiladau a thir gorsafoedd (e.e. meysydd parcio, tir gwag, ac ati) mewn ffyrdd sy'n cefnogi a gwella cymunedau ac economïau lleol.

## d. Thema: Chwarae rôl o fewn y diwydiant rheilffordd

3.44 Dros y degawd diwethaf, mae rheilffyrdd cymunedol wedi dod yn rhan annatod o'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Mae'r thema hon yn ymwneud â deall i ba raddau y gall rheilffyrdd cymunedol ddatblygu ymhellach, tra'n cadw ei sefyllfa unigryw a gwerthfawr fel mudiad llawr gwlad a yrrir gan gymunedau lleol.

3.45 Mae rheilffyrdd cymunedol yn datblygu enw da am gyflawni gwelliannau i orsafoedd sy'n werth da am arian, ond sydd hefyd yn dod â manteision ychwanegol ynghylch cynnwys y gymuned.

3.46 Bydd yr adran hon yn ystyried strwythurau diwydiant cyfredol a sut mae'r rhain yn rhyngweithio â rheilffyrdd cymunedol. Mae cwestiynau ynglŷn â sut y gall rheilffyrdd cymunedol hyrwyddo cynaliadwyedd ac arloesedd y diwydiant; rôl cefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer rheilffyrdd cymunedol trwy gyfrwng mecanweithiau cyllid grant presennol; a sut y gellir datblygu dynodiad yn y dyfodol.

3.47 Mae'r adran hon yn gyfle i ymatebwyr edrych tua'r dyfodol a chyflwyno'r uchelgais a'r posibiliadau y gallai rheilffyrdd cymunedol eu cyflenwi.

### Cwestiwn 8: Sut ellir cefnogi rheilffyrdd cymunedol am y gorau i weithredu'n

- Arloesol?
- Effeithiol?

3.48 Mae arloesi'n cynnwys gwelliant parhaus a datblygu ymagweddau newydd. Gallai hyn gynnwys dulliau newydd a gwell o gyflenwi profiad gwell i deithwyr neu o reoli gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

3.49 Mae enghreifftiau da eisoes o reilffordd gymunedol yn gweithredu'n arloesol, megis y 'Harrington Hump'; a arloeswyd gan reilffordd gymunedol, ac a fabwysiadwyd yn ehangach gan y rhwydwaith. Anogir ymatebwyr i gyflwyno ymagweddau arloesol sy'n hwyluso cynlluniau rheilffyrdd cymunedol. Gofynnir hefyd i ymatebwyr esbonio'r rhwystrau i wireddu cynlluniau arloesol.

### Cwestiwn 9: Pa gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau:

- Sylfaen incwm amrywiol ar gyfer rheilffyrdd cymunedol?
- Sylfaen incwm cynaliadwy ar gyfer rheilffyrdd cymunedol?

3.50 Ar hyn o bryd, cefnogir rheilffyrdd cymunedol a CRPau trwy raglen freinio'r Adran Drafnidiaeth, gyda chystadlaethau breinio'n gorfodi TOCau fel arfer i ddod yn aelodau o CRPau lleol a darparu cymorth rheoli ac ariannol parhaus. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn darparu cyllid a chymorth arall.

3.51 Rydym yn dymuno gweld rheilffyrdd cymunedol yn ffynnu ac yn cael dyfodol cynaliadwy a hirdymor. Rhan bwysig o hyn fydd ystyried cyfleoedd i reilffordd gymunedol ddatblygu ffynonellau incwm ychwanegol a newydd. Gallai hyn gynnwys cysylltu'r rheilffordd ag anghenion y gymuned ehangach a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau lleol. Gallai ddarparu i rai CRPau ddod yn fwy

entrepreneuraidd, nodi cyfleoedd menter gymdeithasol a darparu gwasanaethau lle na ddarperir y rhain ar hyn o bryd.

### Cwestiwn 10: Sut ellir datblygu dynodiad rheilffordd gymunedol i wireddu ei botensial yn llawnach?

3.52 Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r DfT wedi cydnabod rhai CRPau yn ffurfiol trwy broses ffurfiol o 'ddynodi' gyda'r bwriad o ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth weithredu gwasanaethau lleol, gan gynnwys consesiynau tocynnau a rhanddirymiadau o rai safonau'r diwydiant. Mae dynodiad hefyd yn cynnig mynediad i'r DCRDF a ariennir gan yr Adran Drafnidiaeth, sy'n darparu grantiau ar gyfer prosiectau bach.

3.53 Hyd yn hyn, mae tua 60 CRP ledled Prydain Fawr, a dynodwyd 41 o lwybrau Rheilffyrdd Cymunedol gan yr Adran Drafnidiaeth.

3.54 Mae gennym ddiddordeb i glywed eich barn am y rôl mae dynodiad wedi ei chwarae wrth ymgorffori rheilffyrdd cymunedol yn y diwydiant rheilffordd, a'i pherthnasedd ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y gwahaniaeth rhwng dynodiad llinell a gwasanaeth, a'r cyswllt rhwng dynodiad a mynediad i gyllid grant y llywodraeth. Byddem yn awyddus i ddysgu gennych sut y gellid cyflenwi bwriad ac uchelgais dynodiad i wahaniaethu rhag safonau cenedlaethol mewn ffyrdd gwahanol.

### Cwestiwn 11: Sut all rheilffyrdd cymunedol

- Gefnogi datblygiad gwelliannau i linellau rheilffordd a gorsafoedd?
- Cyfrannu at ddatblygu gwelliannau i linellau rheilffordd a gorsafoedd?
- Gwneud mwy o ddefnydd o reilffyrdd treftadaeth?

3.55 Mae cefnogi ehangiad cynaliadwy o'r rhwydwaith rheilffyrdd i gymunedau lleol yn gam pwysig o ran sicrhau twf economaidd-gymdeithasol. Mae angen cefnogaeth awdurdodau lleol, LEPau, datblygwyr a phartïon eraill ar gynigion llwyddiannus ar gyfer gorsafoedd ac isadeiledd newydd. Er enghraifft, gall gweithio gyda datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol gefnogi cyflenwi tai a gwella cysylltiadau cludiant i gartrefi newydd. Credwn fod rôl bwysig hefyd ar gyfer CRPau wrth sicrhau bod llais cymunedau'n cael ei ddeall yn y broses hon a bod ganddynt ddiddordeb yn rôl rheilffyrdd cymunedol o ran gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a datblygu'r achos o blaid seilwaith rheilffyrdd newydd.

3.56 Hefyd mae rhwydwaith llwyddiannus o weithredwyr rheilffyrdd 'treftadaeth', sy'n cynnal llinellau ac yn darparu gwasanaethau rheilffordd. Mae rhai o'r llinellau a'r gwasanaethau hyn wrth ymyl y rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol ac mae rhai wedi'u cysylltu mewn gwirionedd. Yn ogystal â llinellau a gorsafoedd newydd, credwn fod cyfle hefyd i gael mwy o gydweithrediad â sector rheilffyrdd treftadaeth Prydain, a allai gynnwys cyfleoedd i weithio gyda rheilffyrdd 'treftadaeth' sy'n eiddo i berchnogion annibynnol er mwyn darparu opsiynau teithio newydd.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion, gan gynnwys y camau nesaf, o fewn tri mis i'r ymgynghoriad gau ar 29 Ionawr 2018. Bydd copïau papur ar gael ar gais.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Ffacs

Cyfeiriad e-bost

Gellir dod o hyd i wybodaeth gefndirol bellach yn [cyfeiriad gwe]

# Atodiad A: Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad

**Thema: Cysylltu pobl â lleoedd a chyfleoedd**

1a Pa rôl all rheilffyrdd cymunedol chwarae wrth wella teithiau dechrau i'r diwedd?

- Gwneud teithiau'n fwy cynaliadwy
- Annog mwy o deithio'n iach
- Gwella effaith teithio amgylcheddol.
- Arall

1b Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu cyflawni'r nodau hyn

2. Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu:

- Cymunedau i gael llais o ran dylanwadu ar ddarpariaeth rheilffyrdd?
- Gwasanaethau cludiant ategol a datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd?

3. A ddylai'r llywodraeth annog rheilffyrdd cymunedol i ddatblygu ar rannau o'r rhwydwaith sydd ar hyn o bryd

- Heb CRPau gweithredol DYLAI/NA DDYLAI
- Heb gyfranogiad cymunedol? DYLAI/NA DDYLAI
- Sut ellir cyflawni hyn?

**Thema: Cefnogi cymunedau, amrywiaeth a chynhwysiant**

4a. Beth yw rôl rheilffyrdd cymunedol wrth gefnogi:

- Cydlyniant cymunedol
- Hyrwyddo amrywiaeth
- Galluogi cynhwysiant cymdeithasol

4b. Sut y cyflawnir hyn orau?

5. Sut all rheilffyrdd cymunedol helpu sicrhau bod y rheilffyrdd yn hygyrch i gymaint o bobl â phosibl?

**Thema: Cefnogi economïau lleol**

6. Sut all rheilffyrdd cymunedol gefnogi economïau lleol a rheilffyrdd lleol i dyfu trwy

- gynyddu cyflogaeth,
- cyfleoedd addysg a hyfforddiant,

- cefnogi busnesau bach
- datblygu mentrau cymdeithasol?

7. Pa rôl all rheilffyrdd cymunedol ei chwarae wrth wneud y defnydd gorau o

- Adeiladau gorsaf
- Tir y rheilffordd?

**Thema: Chwarae rôl o fewn y diwydiant rheilffyrdd**

8. Sut ellir cefnogi rheilffyrdd cymunedol am y gorau i weithredu'n:

- Arloesol
- Effeithiol?

9. Pa gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau

- Sylfaen incwm amrywiol ar gyfer rheilffyrdd cymunedol?
- Sylfaen incwm cynaliadwy ar gyfer rheilffyrdd cymunedol?

10. Sut ellir datblygu dynodiad rheilffordd gymunedol i wireddu ei botensial yn llawnach?

11. Sut all Rheilffyrdd Cymunedol:

- Gefnogi'r datblygiad o welliannau i linellau a gorsafoedd rheilffyrdd
- Cyfrannu at ddatblygu gwelliannau i linellau a gorsafoedd rheilffyrdd
- Gwneud mwy o ddefnydd o reilffyrdd treftadaeth?

12. Unrhyw sylwadau eraill.

# Atodiad B: Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori allweddol y Llywodraeth sydd wedi'u rhestru isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â:

Cydlynydd yr Ymgynghoriad
Yr Adran Drafnidiaeth
Zone 1/29 Great Minster House
Llundain SW1P 4DR
E-bost consultation@dft.gsi.gov.uk

# Atodiad C: Rhestr o'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â nhw

Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Gymunedol
Siambrau Masnach Prydain
British Cycling
Bus Users UK
Busnes yn y Gymuned
Campaign for Better Transport
Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol
DB Schenker
Direct Rail Services
Freightliner Ltd
GB Railfreight Ltd
Heritage Railway Association
LEP Network
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Network Rail
Office of Rail and Road Regulation
Rail Delivery Group
Rail Freight Group
Rail Future
Railway Heritage Trust
Rail Safety and Standards Board (RSSB)
Sustrans
Transport Focus
Visit Britain
Visit England
Visit Scotland
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru